# Egwyddorion Froebelaidd

## Undod a Chysylltioldeb

Mae popeth yn y bydysawd wedi eu cysylltu. Po fwyaf eich ymwybyddiaeth o'r undod hwn, po ddyfnaf eich dealltwriaeth ohonoch chi eich hun, o eraill, o fyd natur ac o'r byd ehangach. Mae plant yn fodau cyflawn sydd â'u meddyliau, teimladau a gweithredoedd yn perthyn i'w gilydd. Mae plant ifanc yn dysgu mewn ffordd holistaidd, ac ni ddylid dysgu cael ei adrannu, gan fod popeth wedi eu cysylltu.



## Dysgwyr Ymreolaethol

Mae pob plentyn yn unigryw, a'r hyn y gall plentyn ei wneud, nid yr hyn na all ei wneud, yw man cychwyn dysgu pob plentyn. Mae plant yn dysgu orau trwy wneud pethau drostyn nhw eu hunain a thrwy ddod yn fwy ymwybodol o'u dysgu. Mae addysgwyr Froebelaidd yn parchu plant am yr hyn ydyn nhw ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion. Mae helpu plant i fyfyrio yn nodwedd allweddol o addysg Froebelaidd.

## Gwerth Plentyndod yn ei rinwedd ei Hun

Nid paratoad yn unig ar gyfer y cam nesaf o ddysgu yw plentyndod. Mae dysgu yn cychwyn o'r crud ac yn parhau trwy gydol oes.

## Mae Perthynas yn Bwysig

Mae perthynas pob plentyn gyda nhw eu hunain, gyda'u rhieni, eu gofalwyr a'u teulu, a gyda'r gymuned ehangach, yn werthfawr. Mae pob perthynas fel hyn yn hanfodol bwysig ym mywyd plentyn.

## Creadigrwydd a Grym Symbolau

Creadigrwydd yw'r modd y mae plant yn cynrychioli eu syniadau eu hunain yn eu ffyrdd eu hunain, â chefnogaeth amgylchedd a phobl feithringar. Wrth i blant ddechrau defnyddio a chreu symbolau, maen nhw'n mynegi eu meddyliau a'u syniadau mewnol ac yn creu ystyr. Dros amser mae myfyrdodau llythrennol o fywyd pob-dydd, cymuned a diwylliant yn troi'n fwy haniaethol a neilltuol.

## Pwysigrwydd Hanfodol Chwarae

Mae chwarae yn rhan annatod o'r profiad dynol ac yn helpu plant i gysylltu bydoedd mewnol eu teimladau, syniadau a phrofiadau byw, gan eu dwyn nhw at lefelau newydd o feddwl, teimlo, dychmygu a chreu, yn adnodd i'r dyfodol. Mae plant yn perchnogi eu chwarae. Mae addysg Froebelaidd yn rhoi gwerth ar gyfraniad oedolion sy'n cynnig 'rhyddid gydag arweiniad ' i gyfoethogi chwarae fel cyd-destun addysgol.

## Ymgysylltu â Byd Natur

Mae profiad a dealltwriaeth o fyd natur ac o'n lle ni ynddo yn nodwedd hanfodol o arfer Froebelaidd. Trwy brofiadau bywyd go iawn, mae plant yn dysgu am y cydberthynas sydd rhwng popeth byw. Mae hyn yn eu helpu nhw i feddwl am gwestiynau mawr am yr amgylchedd, cynaladwyedd a newid hinsawdd.

## Addysgwyr Gwybodus a Meithringar

Mae addysgwyr plentyndod cynnar sy'n ymroi i'w dysgu nhw eu hunain ac sy'n credu mewn arfer egwyddorol a myfyriol yn agwedd allweddol o'r dull Froebelaidd. Mae addysgwyr Froebelaidd yn hwyluso a chyfeirio yn hytrach na hyfforddi. Maen nhw'n darparu cyfleoedd cyfoethog a profiadau bywyd go iawn ac yn arsylwi'n ofalus ar blant, gan gefnogi ac ymestyn eu diddordebau trwy 'ryddid gydag arweiniad.



Froebel Trust

froebel.org.uk